Costau cartref a gwresogi

DWP Adran Gwaith a Phensiynau

Cynnwys

3 Os ydych yn talu rhent

6 Os ydych ar fin rhentu cartref newydd

8 A allaf gael help gyda'r rhent sydd angen i mi ei dalu ymlaen llaw?

8 Os ydych yn talu morgais

11 Os ydych yn talu treth cyngor

12 Sut i wneud cais

16 Newidiadau yn eich bywyd

18 Cwestiynau eraill a allai fod gennych

20 Help gyda'ch costau gwresogi

24 Beth am help arall gyda'ch costau gwresogi?

Os ydych yn talu rhent

Pa help y gallaf ei gael os wyf yn talu rhent?

Os ydych ar incwm isel, p'un a ydych yn gweithio neu beidio, mae'n bosibl y gallech gael yr help canlynol:

- Budd-dal Tai i helpu i dalu eich rhent.
- Budd-dal Treth Cyngor i helpu i dalu eich treth cyngor (gweler tudalen 11).

Nid oes rhaid i chi fod yn cael unrhyw fudd-daliadau eraill i gael Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor. Eich cyngor lleol sy'n eu talu.

Gallwch hefyd ofyn i'r cyngor am help ychwanegol gyda chostau cartref. 'Taliad Tai Dewisol' yw enw'r help ychwanegol hwn. Y cyngor fydd yn penderfynu p'un a fydd yn talu Taliad Tai Dewisol i chi ai peidio.

Beth yw Budd-dal Tai?

Arian di-dreth yw Budd-dal Tai i helpu i dalu rhywfaint o'ch rhent os ydych ar incwm isel. Caiff ei dalu gan eich cyngor, p'un a ydych yn talu rhent i:

- landlord preifat
- cymdeithas tai, neu
- hostel neu westy bach.

Os ydych yn denant y cyngor, bydd y cyngor yn defnyddio eich budd-dal i helpu i dalu eich rhent.

I gysylltu â'ch cyngor lleol ewch i:
www.direct.gov.uk/cy

neu gallwch weld ei fanylion yn y llyfr ffôn

A allaf gael Budd-dal Tai?

Efallai y gallwch gael Budd-dal Tai os:

- ydych ar incwm isel
- nid oes gennych lawer o arian wedi'i gynilo, ac
- mae'n rhaid i chi dalu rhent.

Hyd yn oed os ydych yn gweithio mae'n bosibl y gallwch gael rhywfaint o help os yw'r tri pheth hyn yn gymwys.

Nid ydych yn debygol o gael Budd-dal Tai os yw'r canlynol yn berthnasol:

- mae gennych gynilion o dros £16,000
- rydych yn fewnfudwr anghyfreithlon, 'arhoswr dros amser' neu'n geisiwr lloches
- rydych yn cael nawdd i fod yn y DU (hynny yw, mae cyflogwr yn eich cefnogi chi fel y gallwch fyw a gweithio yn y DU)
- rydych yn byw gydag aelod agos o'ch teulu, neu
- rydych yn fyfyriwr llawn amser (oni bai eich bod yn anabl neu fod gennych blant).

Nid yw Budd-dal Tai yn cwmpasu taliadau morgais.

Y Deyrnas Unedig (DU)

Sef Cymru, Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon. Ond nid Ynysoedd y Sianel nac Ynys Manaw.

Sut y caiff fy Mudd-dal Tai ei weithio allan?

Bydd eich cyngor yn edrych ar:

- unrhyw arian a gewch chi a'ch partner (fel cyflog, pensiynau, rhai budd-daliadau a chredydau treth), ac
- unrhyw gynilion sydd gennych chi a'ch partner.

Byddwn yn eich trin fel cwpl os ydych yn byw gyda'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, neu os ydych yn byw gyda rhywun fel pe bai'n ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi. Rydym yn galw'r unigolyn arall hwn yn bartner i chi.

Hefyd, bydd yn edrych ar:

- eich oedran
- faint o'r bobl sy'n byw gyda chi sydd yn eich teulu a beth yw eu hoedran
- a oes unrhyw aelod o'ch teulu sy'n byw gyda chi yn anabl, ac
- a allai unrhyw un sy'n byw gyda chi helpu gyda'r rhent.

Yna gall eich cyngor weithio allan faint o Fudd-dal Tai y gallwch ei gael. Os bydd unrhyw wybodaeth a roddwyd gennych i'r cyngor yn newid, mae angen i chi roi gwybod i'r cyngor. Gall effeithio ar swm y Budd-dal Tai y gallwch ei gael.

A oes terfyn i faint y gallaf ei gael?

Bydd eich cyngor ond yn talu swm o rent y mae o'r farn sy'n rhesymol i rywun yn eich sefyllfa chi ac sy'n byw yn eich ardal chi.

Mae rheoliadau sy'n cyfyngu ar swm y Budd-dal Tai y gallwch ei gael. Efallai na fydd yn cwmpasu eich rhent cyfan os:

- rhentir eich cartref yn breifat, ac mae'n fwy na'r hyn y disgwylir sydd ei angen ar gyfer y nifer o bobl sy'n byw yno (gan ystyried eu hoedran, rhyw ac iechyd), neu
- mae costau eich cartref yn uwch na chost cartref addas arall yn yr ardal.

O **1 Ebrill 2011**, mae'r cyfraddau wedi gostwng. Mae terfyn i faint o Fudd-dal Tai y gall unrhyw un ei gael. Y cyngor sy'n pennu'r terfyn ar gyfer eich ardal, ac yn sicrhau bod tua thri o bob deg eiddo yn eich ardal yn fforddiadwy i bobl sy'n cael Budd-dal Tai. Caiff y cyfraddau eu hadolygu bob blwyddyn.

Mae terfyn i Brydain gyfan hefyd. Mae hyn yn bwysig os ydych yn byw yn rhywle fel Llundain. Y swm mwyaf o Fudd-dal Tai y gall unrhyw un ei gael yw:

- £250 yr wythnos am eiddo ag un ystafell wely (gan gynnwys llety a rennir)
- £290 yr wythnos am eiddo â dwy ystafell wely
- £340 yr wythnos am eiddo â thair ystafell wely
- £400 yr wythnos am eiddo â phedair ystafell wely

Ni all unrhyw un gael mwy na £400 yr wythnos o Fudd-dal Tai.

Cofiwch, gallai'r terfyn yn eich ardal fod yn is na'r symiau a restrir uchod. Gall eich cyngor lleol ddweud wrthych beth yw'r terfyn yn eich ardal.

Os oes oedolyn yn byw yn eich cartref nad ydych yn hawlio budd-dal ar ei gyfer (megis mab neu ferch sydd wedi tyfu i fyny), byddwch yn cael llai o Fudd-dal Tai. Bydd y swm a ddidynnir o'ch Budd-dal Tai yn cynyddu'n raddol rhwng Ebrill 2011 ac Ebrill 2014.

Mae'r 'gyfradd ar gyfer llety a rennir' yn gymwys i bobl sengl o dan 35 oed sy'n byw mewn llety a gaiff ei rentu gan landlord preifat.

Mae hyn yn golygu y bydd y rhan fwyaf o bobl sengl o dan 35 oed yn cael Budd-dal Tai yn seiliedig ar lety a rennir ac nid ar lety hunangynhwysol un ystafell wely. Mae rhai eithriadau.

Os ydych ar fin rhentu cartref newydd

A allaf ganfod faint o Fudd-dal Tai y gallwn ei gael cyn i mi rentu cartref?

Os ydych yn rhentu gan landlord preifat ac yn hawlio Budd-dal Tai am y tro cyntaf, neu os ydych wedi symud i gyfeiriad newydd sy'n eiddo preifat, bydd y cyngor lleol yn defnyddio cyfrifiad 'lwfans tai lleol' i weithio allan faint o fudd-dal y gallech ddisgwyl ei gael.

Mae'r lwfans tai lleol yn ffordd o weithio allan Budd-dal Tai. Mae'n seiliedig ar yr ardal lle rydych yn byw a nifer yr ystafelloedd gwely sydd eu hangen arnoch ar gyfer y bobl sy'n byw yn eich eiddo. Mae gwahanol gyfraddau yn dibynnu ar nifer yr ystafelloedd gwely, hyd at uchafswm o bedair. Mae'n sicrhau bod tenantiaid mewn amgylchiadau tebyg yn yr un ardal yn cael yr un swm o arian i'w helpu gyda chostau eu cartref.

Cofiwch efallai na fydd unrhyw fudd-dal a gewch yn cwmpasu'r rhent llawn.

Cytundebau tenantiaeth newydd

Efallai y byddwch am gael cyngor gan eich cyngor lleol cyn llofnodi cytundeb tenantiaeth newydd.

Rhagor o wybodaeth

Gallwch gael rhagor o fanylion am Fudd-Dal Tai a'r lwfans tai lleol yn **www.direct.gov.uk/budd-daliadau**

A allaf gael help gyda'r rhent sydd angen i mi ei dalu ymlaen llaw?

Os oes angen help ar frys arnoch i dalu rhent ymlaen llaw, efallai y gallwch gael Benthyciad Argyfwng.

I gael Benthyciad Argyfwng, mae'n rhaid i chi orfod talu rhent ymlaen llaw i landlord preifat neu gymdeithas tai oherwydd:

- mae risg i'ch iechyd a'ch diogelwch chi (neu aelod o'ch cartref) a dyma'r unig ffordd o atal y risg, neu
- rhoddir Grant Gofal Cymunedol i chi wrth adael gofal.

Nid oes rhaid eich bod yn cael unrhyw fudd-daliadau i wneud cais am Fenthyciad Argyfwng.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **www.direct.gov.uk/budd-daliadau**

Ffôn: **0800 032 7952**
Ffôn testun: **0800 032 7958**

Os ydych yn gymwys i gael Budd-dal Tai, efallai y gallwch gael help gan adran Budd-dal Tai eich cyngor lleol. Bydd y manylion yn y llyfr ffôn.

Os ydych yn talu morgais

Pa help y gallaf ei gael os wyf yn talu morgais?

Os ydych ar incwm isel, efallai y gallwch gael y canlynol:

- Budd-dal Treth Cyngor i'ch helpu i dalu eich treth cyngor (gweler tudalen 11). Nid oes rhaid i chi gael unrhyw fudd-daliadau eraill i gael Budd-dal Treth Cyngor. Caiff ei dalu gan eich cyngor.

- arian ychwanegol gyda rhai budd-daliadau i'ch helpu i dalu'r llog ar eich morgais, ar gyfer rhai benthyciadau gwella'r cartref, neu daliadau gwasanaeth ar gyfer eiddo prydles.

A allaf gael help gyda llog fy morgais?

Gallech gael help gyda llog eich morgais os byddwch yn cael:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Credyd Pensiwn, neu
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm.

Os ydych yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm, fel arfer dim ond help tuag at dalu llog eich morgais y gallwch ei gael ar ôl i chi fod yn hawlio'r budd-dal am 13 wythnos.

Os ydych yn cael Credyd Pensiwn, efallai y gallwch gael help tuag at gostau eich cartref o ddechrau eich hawliad.

Os gallwch gael yr help hwn, ni fydd yn cwmpasu'ch holl daliadau morgais. Bydd yn rhoi help i chi tuag at daliadau llog eich morgais. Ni fydd yn cwmpasu:

- premiymau ar gyfer unrhyw yswiriant sy'n gysylltiedig â'ch morgais neu'ch cartref, neu
- unrhyw ran o forgais na ddefnyddiwyd gennych i brynu eich eiddo (er enghraifft, symiau a ddefnyddiwyd gennych i brynu car neu dalu dyledion).

Dylech gysylltu â'ch benthyciwr bob amser os ydych yn cael problemau yn talu eich morgais. Bydd yn gallu rhoi cyngor a gwybodaeth i chi am beth y gallwch ei wneud.

A oes terfyn ar faint y byddwch yn ei dalu?

Os yw eich morgais neu 'fenthyciadau cymhwyso' eraill yn fwy na chyfanswm o £200,000, efallai na thelir eich costau tai yn llawn. Os ydych yn cael Credyd Pensiwn, y terfyn hwn yw £100,000.

£100,000 yw'r terfyn hwn hefyd os cawsoch help gyda'ch morgais cyn 5 Ionawr 2009, neu os ydych yn gwneud cais newydd sy'n gysylltiedig â chais a wnaed cyn y dyddiad hwn.

Os ydych yn cael Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, gallwn ond eich helpu gyda'ch costau morgais am hyd at ddwy flynedd.

Gallwn benderfynu bod eich costau tai yn rhy uchel os yw'r canlynol yn berthnasol:

- mae eich cartref yn fwy na'r hyn sydd ei angen ar gyfer y bobl sy'n byw yno
- mae eich cartref mewn ardal ddrutach na'r hyn sydd angen iddo fod ynddi, neu
- mae costau eich cartref, fel llog morgais, yn uwch na chostau cartref addas arall yn yr ardal.

Er mwyn penderfynu a yw costau eich cartref yn rhy uchel, edrychwn ar:

- cartrefi addas a chostau tai eraill yn yr ardal
- pwy sy'n byw yn eich cartref, eu hoedran a'u hiechyd
- yr effaith y gallai symud i gartref gwahanol ei chael ar addysg unrhyw un o dan 20 oed, a
- p'un a allech fforddio eich cartref pan symudoch yno gyntaf.

Os byddwn yn penderfynu nad oes angen i chi chwilio am gartref rhatach, ni fydd y rheolau hyn yn effeithio arnoch. Ond os credwn fod eich costau tai yn rhy uchel, efallai y cewch lai o arian.

Mae rheoliadau eraill yn gymwys os gwnaethoch drefnu morgais neu fenthyciad arall tra roeddech yn hawlio budd-daliadau.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:
www.direct.gov.uk/cy

Os ydych yn talu treth cyngor

Beth yw Budd-dal Treth Cyngor?

Budd-dal di-dreth ydyw sy'n eich helpu i dalu eich treth cyngor.

Cesglir treth cyngor gan eich cyngor lleol i dalu am y gwasanaethau mae'n eu darparu. Mae pob cyngor yn gosod lefel y dreth cyngor ar gyfer ei ardal. Mae faint o dreth cyngor y byddwch yn ei dalu yn dibynnu ar werth eich cartref.

Fel arfer y person (neu'r bobl) sy'n berchen ar y cartref neu'n ei rentu sy'n gorfod talu'r dreth cyngor ar ei gyfer.

Mae Budd-dal Treth Cyngor ar gyfer pobl sy'n gorfod talu treth cyngor, p'un a ydynt yn talu rhent neu fod ganddynt forgais.

Sut y caiff fy Mudd-dal Treth Cyngor ei weithio allan?

Bydd eich cyngor yn edrych ar:

- unrhyw arian rydych chi a'ch partner yn ei gael (fel cyflog, pensiynau, rhai budd-daliadau a chredydau treth), ac
- unrhyw gynilion sydd gennych chi a'ch partner.

Bydd eich cyngor yn eich trin fel cwpl os ydych yn byw gyda'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, neu os ydych yn byw gyda rhywun fel pe bai'n ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi. Rydym yn galw'r unigolyn arall hwn yn bartner i chi.

Hefyd, byddant yn edrych ar:

- eich oedran
- faint o'r bobl sy'n byw gyda chi sydd yn eich teulu a beth yw eu hoedran
- a oes unrhyw aelod o'ch teulu sy'n byw gyda chi yn anabl, ac

- a allai unrhyw un sy'n byw gyda chi helpu gyda'r dreth cyngor.

Yna gall y cyngor weithio allan faint o fudd-dal y gallwch ei gael. Y swm mwyaf o Fudd-dal Treth Cyngor y gallwch ei gael yw eich bil treth cyngor cyfan.

Sut i wneud cais

Sut y gallaf wneud cais am Fudd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor?

Mae tair ffordd o wneud cais.

1. Os nad ydych yn hawlio unrhyw fudd-daliadau eraill y wladwriaeth, gofynnwch i'ch cyngor lleol. Bydd yn rhoi'r ffurflenni cais cywir i chi eu cwblhau. Yna bydd angen i chi ddychwelyd y ffurflenni iddo. Mae rhai cynghorau hefyd yn cynnig gwasanaeth gwneud cais dros y ffôn neu ar-lein.
2. Os ydych am hawlio Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor yn ogystal â:
   - Cymhorthdal Incwm
   - Lwfans Ceisio Gwaith, neu
   - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth,

   cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith. Gallwn gymryd manylion eich cais am Fudd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor, ac yna anfon eich cais i'r cyngor ar eich rhan.
3. Os ydych am hawlio Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor yn ogystal â Chredyd Pensiwn, ffoniwch y llinell gymorth Credyd Pensiwn ar **0845 606 0275** (Ffôn testun: 0800 169 0133).

Pryd y dylwn wneud cais?

Dylech wneud cais ar unwaith. Os na wnewch hyn, gallech golli budd-dal.

Gallwch wneud cais hyd at 13 wythnos cyn bod hawl gennych i gael Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor. Os ydych yn gwybod eich bod yn symud i gartref ar rent yn ystod y 13 wythnos nesaf, gallwch wneud cais am Fudd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor nawr. Fodd bynnag, fel arfer ni fyddwch yn cael unrhyw fudd-dal cyn i chi symud i mewn.

Unwaith y byddwch wedi gwneud eich cais, os byddwch yn symud i gyfeiriad newydd, neu os bydd unrhyw wybodaeth arall a roddwyd ar eich ffurflen gais yn newid, dywedwch wrth eich cyngor ar unwaith. Os byddwch yn dechrau gwaith llawn amser, rhaid i chi ddweud wrth eich cyngor lleol (neu'r Ganolfan Byd Gwaith, os ydych yn cael budd-daliadau eraill) ar unwaith.

A fydd yn angen i mi roi prawf adnabod?

Os ydych yn hawlio Budd-dal Tai, rhaid i'ch cyngor fod yn siŵr mai chi yw'r person rydych yn honni eich bod. Efallai y bydd angen iddynt eich holi am eich cefndir ac edrych ar unrhyw ddogfennau swyddogol sydd gennych i gadarnhau'r manylion a roddwch.

Ymhlith y dogfennau swyddogol y gallwch eu defnyddio i brofi pwy ydych mae:

- pasbort
- tystysgrif geni lawn, neu weithred newid enw (os ydych wedi newid eich enw)
- cerdyn adnabod
- trwydded yrru lawn, a
- trwydded waith neu ddogfennau'r Swyddfa Gartref.

Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi wneud fy nghais?

Fel arfer bydd eich cyngor yn ymdrin â'ch cais o fewn pythefnos o gael yr holl fanylion sydd eu hangen gennych. Efallai y byddant yn gofyn i chi am ragor o fanylion. Os ydych yn rhentu gan landlord preifat, dylai'r cyngor dalu eich budd-dal o fewn pythefnos o gael eich cais a'r holl fanylion sydd eu hangen arno.

Os bydd y cyngor yn cymryd yn hirach na hyn i ymdrin â'ch cais ac nad eich bai chi yw hyn, efallai y gallwch gael taliad ymlaen llaw. Gofynnwch i'ch cyngor am hyn.

Bydd y cyngor yn anfon llythyr atoch yn dweud wrthych os gallwch gael Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor, ac os felly, faint.

Os credwch fod y cyngor wedi gwneud camgymeriad, gallwch ofyn iddo edrych ar y penderfyniad eto. Mae'n rhaid i chi wneud hyn o fewn mis i gael penderfyniad y cyngor.

Pryd fydd fy mudd-dal yn dechrau?

Budd-dal Tai

- Os ydych eisoes yn rhentu pan fyddwch yn gwneud eich cais, bydd eich budd-dal yn dechrau fel arfer o'r wythnos ar ôl i chi wneud eich cais cyntaf am Fudd-dal Tai (unwaith i'r cyngor benderfynu bod hawl gennych i'w gael).
- Weithiau gellir ôl-ddyddio eich cais am Fudd-dal Tai.

Budd-dal Treth Cyngor

- Os mai chi yw'r person sy'n cael bil y treth cyngor, caiff eich Budd-dal Treth Cyngor ei ddidynnu o'ch bil. Ni fyddwch yn cael arian, ond bydd eich bil yn llai.
- Os ydych eisoes wedi talu'r bil cyfan, gallwch gael ad-daliad neu gellir didynnu eich Budd-dal Treth Cyngor oddi ar eich bil nesaf yn lle hynny.

Sut y caiff Budd-dal Tai ei dalu?

Os ydych yn denant y cyngor, byddwch yn talu llai o rent.

Os ydych yn rhentu gan landlord preifat neu gymdeithas tai gellir talu eich budd-dal:

- i mewn i'ch cyfrif banc
- drwy siec, neu
- mewn ffordd arall y mae'r cyngor yn ei ddewis.

Os ydych o'r farn na allwch ymdopi â thalu eich rhent, gallwch ofyn i'r cyngor dalu eich landlord yn uniongyrchol. Efallai y bydd y cyngor yn gwneud hyn beth bynnag os na fyddwch yn talu'ch rhent yn brydlon.

Sut i wneud cais am help gyda'ch morgais

Sut y gallaf wneud cais?

Byddwn yn anfon ffurflen atoch os ydych yn hawlio:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm, neu
- y rhan warantedig o Gredyd Pensiwn.

Bydd angen i chi gwblhau rhan o'r ffurflen a'i hanfon at eich benthyciwr morgais er mwyn iddo gwblhau'r rhannau eraill.

Os ydych wedi cael benthyciad ar gyfer gwneud atgyweiriadau neu welliannau, gallwn ofyn i chi am ragor o wybodaeth.

Os ydych yn talu taliadau gwasanaeth, byddwn yn gofyn i chi gael manylion gan eich landlord neu gwmni rheoli.

Gall y Ganolfan Byd Gwaith neu'r Gwasanaeth Pensiwn ddweud rhagor wrthych am y wybodaeth sydd ei hangen arnom, a lle i ddod o hyd iddi.

I gysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith ewch i:
www.direct.gov.uk/cy

neu edrychwch ar y manylion yn eich llyfr ffôn

I gysylltu â'r Gwasanaeth Pensiwn ewch i
www.direct.gov.uk/cy

Ffôn: **0845 606 0275**
Ffôn testun: **0845 606 0295**

Sut y caiff llog fy morgais ei dalu?

Fel arfer caiff llog morgais ei dalu'n uniongyrchol i'ch benthyciwr morgais os:

- ydych yn cael un o'r budd-daliadau a restrir uchod, ac
- mae eich benthyciwr yn rhan o'r Cynllun Llog Morgais Uniongyrchol.

Newidiadau yn eich bywyd

Os bydd eich amgylchiadau'n newid rhaid i chi roi gwybod i'ch cyngor. Gallai swm y budd-dal y mae gennych hawl iddo newid.

Os ydych yn cael budd-dal o'r Ganolfan Byd Gwaith, rhaid i chi ddweud wrthi am unrhyw newid hefyd.

Beth os byddaf yn dechrau gweithio neu os bydd fy incwm yn newid?

Os ydych yn cael Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor, efallai y gallech gael help o hyd gyda'ch rhent neu'ch treth cyngor hyd yn oed os byddwch yn dechrau gweithio neu os bydd eich incwm yn newid.

Rhowch wybod i'ch cyngor beth yw eich incwm newydd cyn gynted â phosibl. Yna gall weithio allan faint o Fudd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor y gallwch ei gael.

Os bydd eich budd-daliadau eraill yn dod i ben pan fyddwch yn dechrau gweithio, efallai y gallech barhau i gael Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor.

Efallai y gallwch gael pedair wythnos ychwanegol o Fudd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor os byddwch yn dechrau gweithio, ac yn bodloni rhai amodau.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:
www.direct.gov.uk/budd-daliadau

Beth os wyf yn cael help gyda'm morgais ac yn dechrau gweithio?

Os ydych yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm, a'ch bod chi neu'ch partner yn dechrau gwaith llawn amser, efallai y gallwch gael pedair wythnos ychwanegol o fudd-dal tuag at gostau eich cartref. Mae hyn yn cynnwys y llog ar eich morgais neu 'fenthyciad cymwys' arall, neu i helpu â thaliadau gwasanaeth.

Gellir talu hwn am y pedair wythnos gyntaf ar ôl i chi neu'ch partner ddechrau gwaith llawn amser.

Mae gwaith llawn amser yn golygu:

- eich bod yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos, neu
- mae eich partner yn gweithio o leiaf 24 awr yr wythnos.

Telir y pedair wythnos o fudd-dal ychwanegol yn uniongyrchol i chi ac nid i'ch benthyciwr morgais. Nid oes rhaid i chi wneud cais, ond mae angen i chi roi gwybod i ni os ydych ar fin dechrau gwaith llawn amser â thâl.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:
www.direct.gov.uk/budd-daliadau

Beth os byddaf yn dechrau swydd ac na fydd yn gweithio allan?

Os bydd hyn yn digwydd gallwch roi cynnig ar 'ailhawlio cyflym' os:

- byddwch yn gwneud cais unwaith eto o fewn 12 wythnos i'r adeg y bydd eich Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor ddod i ben
- byddwch yn gwneud cais am Fudd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor unwaith eto ar yr un pryd ag y byddwch yn gwneud cais am Gymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth unwaith eto, ac
- nid oes unrhyw amgylchiadau eraill wedi newid.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith drwy fynd i **www.direct.gov.uk/cy** neu gallwch ddod o hyd i'n cyfeiriad a'n rhifau ffôn yn eich llyfr ffôn lleol.

Cwestiynau eraill a allai fod gennych

Pa help y gallaf ei gael pan fyddaf yn cael Credyd Pensiwn?

Os byddwch yn cael Credyd Pensiwn, gallwch gael y canlynol hefyd:

- Budd-dal Tai (os ydych yn talu rhent neu filiau ar gyfer gwesty, gwesty bach neu hostel)
- Budd-dal Treth Cyngor i helpu i dalu eich Treth Cyngor, a
- Credyd Pensiwn ychwanegol ar gyfer costau cartref eraill (os ydych yn berchennog cartref).

Gallai'r costau cartref eraill hyn gyfrannu at:

- llog ar eich morgais
- llog ar fenthyciadau ar gyfer gwaith atgyweirio a gwelliannau penodol
- llog ar daliadau hurbwrcas (os cawsant eu trefnu i helpu i brynu eiddo)
- rhent tir
- rhai taliadau gwasanaeth, a
- taliadau ar gyfer pebyll a rhent safle.

Ni fydd unrhyw Gredyd Pensiwn ychwanegol a gewch yn cwmpasu:

- 'taliadau 'cyfalaf' (i ad-dalu'r morgais ei hun)
- unrhyw bremiymau ar gyfer polisi gwaddol neu bensiwn sy'n gysylltiedig â'ch morgais,
- ôl-ddyledion ar y morgais (taliadau y dylech fod wedi eu gwneud eisoes), neu
- unrhyw ran o forgais neu fenthyciad na chaiff ei ddefnyddio i brynu'r cartref neu wneud gwelliannau penodol iddo.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy ffonio'r llinell gymorth Credyd Pensiwn ar **0845 606 0275** (Ffôn testun: 0800 169 0133).

Beth os wyf yn dod i'r DU o dramor?

Dim ond os oes gennych hawl i breswylio (byw) yn y gwledydd canlynol y gallwch gael help gyda chostau tai:

- Y Deyrnas Unedig (DU)
- Gweriniaeth Iwerddon
- Ynys Manaw, neu
- Ynysoedd y Sianel.

Weithiau, gallech gael yr help hwn os oes gennych hawl i breswylio yma ac mae'r canlynol yn berthnasol:

- mae gennych basbort y Swistir neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ac rydych wedi bod yn gweithio yn y DU
- rydych yn ffoadur
- rydych wedi cael 'caniatâd arbennig' i ddod i'r DU neu aros yma, neu
- rydych wedi cael 'diogelwch dyngarol' neu 'ganiatâd disgresiwn' i aros yn y DU.

I gael rhagor o wybodaeth am y rheolau hyn, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith.

Y Deyrnas Unedig (DU)

Sef Cymru, Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon. Ond nid Ynysoedd y Sianel nac Ynys Manaw.

Mae 'caniatâd arbennig', 'diogelwch dyngarol' a 'chaniatâd disgresiwn' yn fathau o ganiatâd y gall rhai ceiswyr lloches eu cael i aros yn y DU os na roddwyd statws ffoadur iddynt. Cânt eu rhoi gan y Swyddfa Gartref a gallwch gael rhagor o wybodaeth ganddi.

Beth os wyf yn fyfyriwr?

Ni all y rhan fwyaf o fyfyrwyr hawlio Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor, ond os ydych yn rhiant unigol, neu'n anabl, efallai y gallwch wneud hynny. I gael gwybod mwy, gofynnwch i'ch cyngor lleol.

Help gyda'ch costau gwresogi

Taliad Tywydd Oer

Arian di-dreth yw hwn tuag at gostau gwresogi ychwanegol yn ystod wythnos o dywydd oer iawn yn eich ardal. Os ydych yn gymwys, byddwch yn cael y taliad hwn yn awtomatig. Nid oes rhaid i chi dalu'r arian yn ôl.

Nid yw cynilion yn effeithio ar Daliadau Tywydd Oer. Nid yw Taliad Tywydd Oer yn effeithio ar fudd-daliadau eraill.

Efallai y gallech gael Taliad Tywydd Oer os ydych yn cael un o'r budd-daliadau canlynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm, neu
- Credyd Pensiwn.

Oni bai eich bod yn cael Credyd Pensiwn, neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm yn y 'prif gam', rhaid i'r canlynol fod yn berthnasol hefyd:

- rydych yn cael premiwm pensiynwr neu anabledd gyda'ch budd-dal, neu
- mae gennych blentyn sy'n anabl neu o dan bump oed.

Caiff Taliad Tywydd Oer ei dalu pan gofnodir tymheredd eich ardal yn 0°C neu'n is ar gyfartaledd, neu y rhagwelir mai dyna fydd y tymheredd, dros saith diwrnod yn olynol.

Nid oes angen i chi wneud cais. Rydym yn talu unrhyw un a all gael Taliad Tywydd Oer yn awtomatig.

Beth os nad wyf wedi cael Taliad Tywydd Oer ond y credaf y dylwn fod wedi'i gael?

Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith drwy fynd i **www.direct.gov.uk/cy** neu gallwch gael y manylion yn y llyfr ffôn.

Dywedwch wrthym pam y dylech gael taliad yn eich barn chi. Byddwn yn edrych ar eich achos ac yn rhoi gwybod i chi.

Taliad Tanwydd Gaeaf

Mae'r rhan fwyaf o bobl dros oedran penodol yn cael Taliad Tanwydd Gaeaf bob blwyddyn. Bydd yr oedran y gallwch gael Taliad Tanwydd Gaeaf yn codi i 65 oed erbyn 2018. Mae'n gysylltiedig â'r newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ferched.

Mae'r Taliad Tanwydd gaeaf yn helpu pobl hŷn gyda'u costau gwresogi yn ystod y gaeaf. Mae'r taliad yn ddi-dreth ac nid oes angen i chi fod yn cael budd-daliadau eraill.

Nid yw cynilion yn effeithio ar Daliadau Tanwydd Gaeaf. Nid yw Taliad Tanwydd Gaeaf yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau eraill.

Nid oes angen i'r rhan fwyaf o bobl wneud cais. Os maent yn gymwys, dylent gael y taliad yn awtomatig bob blwyddyn.

A allaf gael Taliad Tanwydd Gaeaf ar gyfer Gaeaf 2012-13?

Gallwch gael hwn os cawsoch eich geni ar neu cyn 5 Gorffennaf 1951.

Ni fyddwch fel arfer yn cael Taliad Tanwydd Gaeaf os oedd y canlynol yn wir yn ystod yr wythnos 17 i 23 Medi 2012:

- roeddech yn byw mewn cartref gofal, ysbyty annibynnol neu yng Nghartref Ailsefydlu Pwylaidd Ilford Park (ac wedi bod yno am 12 wythnos neu fwy) ac yn cael Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm neu Gredyd Pensiwn.
- roeddech mewn ysbyty yn cael triniaeth am ddim i gleifion mewnol (ac wedi bod yno am fwy na 52 wythnos)
- roeddech yn y ddalfa yn bwrw dedfryd a bennwyd gan lys, neu
- roeddech o dan reolaeth mewnfudo ac nid oeddech yn gymwys i gael help gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Sut y gallaf wneud cais?

Os ydych wedi cael Taliad Tanwydd Gaeaf o'r blaen, dylech ei gael heb wneud cais ar yr amod bod eich manylion diweddaraf gennym a'ch bod yn dal i fodloni'r amodau.

Bydd angen i chi wneud cais os nad ydych wedi cael Taliad Tanwydd Gaeaf o'r blaen, ac:

- nid ydych yn cael budd-daliadau, neu
- dim ond Budd-dal Tai, Budd-dal Treth Cyngor neu Fudd-dal Plant rydych yn ei gael.

Os bydd angen i chi wneud cais, anfonwch eich ffurflen gais atom. Mae angen i ni gael ceisiadau ar gyfer Gaeaf 2012-13 erbyn 31 Mawrth 2013.

Llinell Gymorth Taliadau Tanwydd Gaeaf
www.direct.gov.uk/tanwyddgaeaf

Ffôn: **0845 915 1515**
Ffôn testun: **0845 601 5613**

O ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8.30am a 4.30pm

Pryd y caf fy nhalu?

Byddwn yn gwneud taliadau awtomatig rhwng canol mis Tachwedd a'r Nadolig bob blwyddyn. Os na fyddwch wedi cael taliad erbyn y Nadolig, ffoniwch y swyddfa sy'n talu eich budd-dal fel arfer neu ffoniwch y llinell gymorth Taliad Tanwydd Gaeaf.

Os byddwch yn cael Taliad Tanwydd Gaeaf y gaeaf hwn a'ch bod yn bodloni'r amodau o hyd, dylech gael eich taliad yn awtomatig yn y dyfodol. Rhaid i chi roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau ar unwaith.

Beth os nad wyf wedi cael Taliad Tanwydd Gaeaf ac y credaf y dylwn fod wedi'i gael?

Ffoniwch y llinell gymorth Taliad Tanwydd Gaeaf. Dywedwch wrthynt pam y dylech fod wedi cael taliad yn eich barn chi.

Beth am help arall gyda chostau gwresogi?

Gallech hefyd gael help gyda chostau inswleiddio a gwneud eich cartref yn fwy effeithlon o ran ynni.

Cymru
Ffôn: **0800 512 012**
Gwefan: **www.nestwales.org.uk**

Llinell Gymorth Taliadau Tanwydd Gaeaf
Cyngor ar Daliadau Tanwydd Gaeaf a gwneud ceisiadau
Ffôn: **0845 915 1515**
Ffôn testun: **0845 601 5613**
Ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8.30am a 4.30pm
Gwefan: **www.direct.gov.uk/tanwyddgaeaf**

Costau galwadau

Roedd y costau yn gywir ar y dyddiad sydd ar gefn y daflen hon.

Mae galwadau i rifau **0800** am ddim o linellau daear BT ond efallai y bydd yn rhaid i chi dalu os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Ni ddylai cost galwadau i rifau **0845** o linellau daear BT fod yn fwy nag 5c y funud gyda thâl o 13c ar gyfer sefydlu'r alwad. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Gall galwadau o ffonau symudol gostio hyd at 40c y funud, felly gofynnwch i'ch darparwr gwasanaeth am gost galwadau.

Gallwch ofyn i ni eich ffonio'n ôl os byddwch yn poeni am gost yr alwad.

Ffonau testun

Mae ein rhifau ffôn tesun ar gyfer pobl sy'n ei chael hi'n anodd siarad neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, holwch a oes gan eich llyfrgell neu Ganolfan Cyngor ar Bopeth un. Nid yw ffonau testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella ein taflenni. Os oes gennych sylwadau neu awgrymiadau ynghylch y daflen hon, anfonwch e-bost i: **leaflet.feedback@dwp.gsi.gov.uk**

Defnyddir y cyfeiriad e-bost hwn ar gyfer adborth am daflenni yn unig. Ni allwn ateb unrhyw gwestiynau ynglŷn â'ch pensiwn neu'ch budd-dal.

Gwybodaeth bwysig am y daflen hon

Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi ceisio sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir ym mis Ebrill 2012. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio, neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft o ganlyniad i newidiadau i'r gyfraith.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am fudd-daliadau a phensiynau ar-lein.

I gael gwybodaeth am fudd-daliadau ewch i **www.direct.gov.uk/budd-daliadau**

I gael gwybodaeth am bensiynau ewch i **www.direct.gov.uk/pensiynau**

Mae'r wybodaeth hon ar gael mewn fformatau eraill ar gais.

Ffôn **0845 731 3233**
Ffôn testun **0845 604 0210**

Ein nod yw darparu gwasanaeth o safon uchel i'n holl gwsmeriaid. Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn ein siarter cwsmeriaid yn **www.direct.gov.uk/siarterdwp**

Cod blaenorol: DWP1015W

(h) Hawlfraint y Goron
ISBN 978-1-84947-672-0
DWP029W | f1.0 (Ebrill 2012)